



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 60/2018

DYDDIAD CYHOEDDI: 22/11/2018

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru Cam 4, Hydref 2018 – Crynodeb


Beth yw'r Baromedr Twristiaeth?

Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru'n rhoi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â'r hydref.

Mae cwmni Strategic Research and Insight, asiantaeth ymchwil annibynnol o Gaerdydd, wedi cyflawni 800 cyfweiliad teleffon gyda busnesau twristiaeth yn y sectorau canlynol: llety â gwasanaeth, hunanddarpar, safleoedd carafanau a gwersylla, atyniadau, darparwyr gweithgareddau a bwytai, tafarnau a chaffis.

Tymor yr hydref sefydlog yn dilyn haf braf

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau (78%) wedi cynyddu neu gynnal eu lefelau ymwelwyr yr hydref hwn. Ymysg y 27% sydd wedi gweld cynnydd yn eu hymwelwyr, y rheswm mwyaf cyffredin yw 'hunan-farchnata' - a nodwyd gan tua thraean o'r ymatebwyr hyn. Mae'n debyg bod y tywydd braf dros yr haf hefyd wedi chwarae rhan gan iddo annog ymwelwyr i barhau i drefnu tripiâu i'r DU yn yr hydref.




De-ddwyrain Cymru yn perfformio'n dda

Mae de-ddwyrain Cymru yn perfformio'n dda – mae 35% o fusnesau wedi cynyddu eu lefelau ymwelwyr yr hydref hwn. 'Hunan-farchnata' yw'r rheswm a nodwyd gan amlaf (43% o ymatebwyr).

Nid yw rhanbarthau eraill o Gymru yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth ei gilydd o ran perfformiad cyffredinol.


Mae sectorau heb lety wedi gwneud yn well yn gyffredinol

Mae'r sectorau heb lety fel bwytai / tafarndai / caffis a darparwyr atyniadau a gweithgareddau wedi gwneud ychydig yn well o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr. Mae tua dau allan o bump (39%) o fwytai / tafarndai / caffis wedi cynyddu eu hymwelwyr - mae llawer o'r rhain (54%) yn nodi ymwelwyr dychwel fel rheswm.



Mae busnesau'n hyderus ar gyfer 2019 er gwaethaf ansicrwydd Brexit

Yn dilyn hydref sefydlog ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o fusnesau (84%) nawr yn hyderus ar gyfer 2019. Mae hyn er gwaethaf y pryderon sydd gan rai ynghylch effaith Brexit ar ymwelwyr Ewropeaidd, a'r holl sôn am ansicrwydd Brexit yn y newyddion adeg y cyfweiliadau. Cyhoeddir adroddiad llawnach ar y cam ymchwil hwn yn hwyrach ym mis Tachwedd.



Adroddiad ymchwil llawn: Lewis, R. (2018). Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Cam 4, Hydref 2018.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 60/2018

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/tourism-barometer/?skip=1&lang=cy>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Robert Lewis

Pennaeth Ymchwil Twristiaeth

Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol

Canolfan QED, Ystad Trefforest,

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

E-bost: robert.lewis@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78964-443-2